# Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**2018 dccc 2**

## RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## PENNOD 2

CYNLLUNIAU DATBLYGU UNIGOL

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy’n cael eu cadw’n gaeth*

### 39 Ystyr “person sy’n cael ei gadw’n gaeth” a thermau allweddol eraill

(1) At ddibenion y Ddeddf hon—

mae i “awdurdod cartref” yr ystyr a roddir i “home authority” gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56), yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran (2);

mae i “dechrau’r cyfnod o gadw person yn gaeth” yr ystyr a roddir i “beginning of the detention” gan adran 562J o Ddeddf Addysg 1996;

mae i “llety ieuenctid perthnasol” yr ystyr a roddir i “relevant youth accommodation” gan adran 562(1A)(b) o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “person sy’n cael ei gadw’n gaeth” (“*detained person*”) yw plentyn neu berson ifanc—

(a) sy’n ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn yr ystyr a roddir i “detention order” gan adran 562(1A)(a), (2) a (3) o Ddeddf Addysg 1996), a

(b) sy’n cael ei gadw’n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr,

ac mewn darpariaethau sy'n gymwys pan gaiff person ei ryddhau mae'n cynnwys person a oedd, yn union cyn ei ryddhau, yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth.

(2) Caiff rheoliadau ddarparu—

(a) i baragraff (a) o'r diffiniad o "home authority" yn adran 562J(1) o Ddeddf Addysg 1996 (awdurdod cartref plentyn sy'n derbyn gofal) fod yn gymwys gydag addasiadau at ddibenion y Rhan hon;

(b) i ddarpariaeth mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 562J(4) o Ddeddf Addysg 1996 fod yn gymwys gydag addasiadau neu hebddynt at ddibenion y Rhan hon.